No.

# CABINET

Cofnodion cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 8 Chwefror, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, B.E. Brooks, G. John, S.D. Perkes, S. Sivagnanam, E. Williams a M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd A. Asbrey a Dr. I.J. Johnson.

## C229 CYHOEDDIAD -

Croesawodd yr Arweinydd bob plaid i gyfarfod Cabinet Bro Morgannwg.

Atgoffwyd yr Aelodau a'r Swyddogion bod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw a'i recordio ac y byddai'n cael ei lanlwytho i wefan Cyngor Bro Morgannwg cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfarfod.

Gofynnodd i'r holl gyfranogwyr sicrhau, os oeddent yn cymryd rhan yn y Siambr ei hun am beidio ag actifadu eu meicroffon, ac i fynychwyr o bell 'fudo' eu hunain pan nad oeddent yn siarad i osgoi unrhyw sŵn cefndir neu atsain pan oedd cyfranogwyr eraill yn siarad, ac os oedd cyfranogwr yn dymuno siarad a allai actifadu ei swyddogaeth cais i siarad briodol neu ddefnyddio'r botwm 'codi llaw' os yn mynychu o bell.

Gofynnwyd i'r Aelodau sicrhau bod pob trafodaeth yn cael ei chodi ar lafar ac nid drwy'r swyddogaeth 'sgwrsio' er mwyn y recordiad. Gellid defnyddio'r swyddogaeth 'sgwrsio' i dynnu sylw at unrhyw faterion technegol a/neu i gael sylw'r Cadeirydd neu Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd.

Gofynnodd yr Arweinydd am gytundeb i symud Eitem 6 ar yr Agenda ynghylch Polisi Tâl 2024/25 i ddiwedd yr agenda i alluogi unrhyw Uwch Swyddogion a oedd yn bresennol i adael y cyfarfod ar yr adeg honno tra oedd y mater yn cael ei drafod, a chytunwyd ar hynny.

## C230 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 a 25 Ionawr, 2024 fel cofnod cywir.

## C231 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## C232 ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNION CORFFORAETHOL 2022/23 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2023.

Dywedodd yr Arweinydd mai gan drigolion yn anghytuno â phenderfyniadau'r Cyngor oedd nifer o gwynion a dderbyniwyd a'i bod yn bwysig cyfathrebu â’r trigolion ac esbonio’r rhesymau dros y penderfyniadau hynny.

Roedd y Cadeirydd wedi cyfeirio at elfen o dan-adrodd ac roedd yr Arweinydd yn edrych ymlaen at drafod y mater hwnnw gyda'r Cadeirydd mewn cyfarfod a oedd ar ddod.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD – BOD y cyfeiriad a'r sylwadau o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2023 yn cael eu nodi.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

## C233 PWYLLGOR YMGYNGHOROL BAE CAERDYDD –

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynghori Bae Caerdydd a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2023.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson, a oedd wedi cadeirio'r cyfarfod, fod trafodaethau diddorol wedi eu cynnal ynglŷn â digwyddiadau a chyngherddau a oedd wedi digwydd ar y morglawdd, Hanner Marathon Caerdydd a Phont y Werin. Roedd trafodaethau pellach hefyd wedi eu cynnal ynghylch Cystadleuaeth Penfras Agored Clwb Hwylio Bae Caerdydd, ymchwiliadau rheoli ansawdd dŵr, cyflwyniad a gafwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru a llwybr pysgod y morglawdd.

PENDERFYNWYD – BOD cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynghori Bae Caerdydd a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2023 yn cael eu nodi.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Wrth nodi’r cofnodion.

**C234 POLISI TÂL 2024/25 (AG/BA) CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -**

Roedd yr eitem wedi’i symud i ddiwedd yr agenda i alluogi unrhyw Uwch Swyddogion a oedd yn bresennol i adael y cyfarfod tra oedd y mater yn cael ei drafod.

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a diben yr adroddiad oedd gofyn i'r Cabinet ystyried a chymeradwyo Polisi Tâl blynyddol y Cyngor ar gyfer 2024/25 cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo.

Nodwyd gwall teipograffig yn Argymhelliad (2) yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Cyngor Llawn ystyried adroddiad y Polisi Tâl ar 4 Mawrth 2024, fodd bynnag, roedd dyddiad y cyfarfod hwnnw wedi’i newid i 6 Mawrth 2024.

Roedd hwn yn fater i’r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i’r Cabinet ystyried yr adroddiad a’r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y newidiadau gofynnol i Bolisi Tâl 2024/25 y Cyngor fel y'u nodwyd yn yr adroddiad ac fel y'u hymgorfforwyd yn y datganiad diwygiedig yn Atodiad A yn cael eu cytuno.

(2) BOD y Polisi Tâl yn cael ei gymeradwyo a'i gyfeirio i'w ystyried gan y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol ar 21 Chwefror 2024 i'w ystyried a'i gymeradwyo'n derfynol gan y Cyngor ar 6 Mawrth 2024. Pe na bai'r Pwyllgor Craffu yn gwneud unrhyw sylwadau pellach, yna byddai'r Polisi Tâl yn cael ei ystyried fel y cytunwyd arno ac felly'n cael ei gyfeirio at y Cyngor Llawn i'w ystyried.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Ymateb i'r gofynion cyfreithiol dan Reoliadau Diwygio Rheolau Sefydlog (Cymru) 2014, Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 a chyngor cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru

(2) Ymateb i'r gofyniad cyfreithiol dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 a bod yn agored ac yn atebol mewn perthynas â sut mae'r Cyngor yn gwobrwyo ei staff.

**C235 AMSERLEN CYFARFODYDD 2024-2025 (AG/BA) – (CRAFFU – DIM) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad blynyddol, a diben yr adroddiad oedd ystyried amserlen ddrafft o gyfarfodydd ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mai 2024 a mis Mai 2025.

Roedd camau wedi'u cymryd i sicrhau bod yr holl amserlenni rheoleiddiol wedi'u bodloni ac nad oedd gwrthdaro rhwng cyfarfodydd, roedd yr amserlen hefyd wedi cael ei hystyried gan yr Uwch Dîm Arwain.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD – BOD amserlen y cyfarfodydd ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mai 2024 a mis Mai 2025, fel y nodwyd yn Atodiad A yr adroddiad, yn cael ei chymeradwyo, yn amodol ar unrhyw newidiadau yn y dyfodol i'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd a ystyrir yn briodol gan Faer y Cyngor neu'r Cadeirydd Pwyllgor/Cyfarfod perthnasol.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Cymeradwyo / cyhoeddi calendr o gyfarfodydd ar gyfer blwyddyn Ddinesig 2024/25.

**C236 TREFN ARCHWILIO CYNNAL A CHADW PRIFFYRDD (WCA) (CRAFFU – AMGYLCHEDD AC ADFYWIAD) -**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a diben yr adroddiad oedd cynnig newidiadau i'r drefn arolygu troedffordd a lonydd cerbydau.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson fod archwiliadau yn y gorffennol wedi digwydd ar alw, ond cynigiwyd symud i drefn newydd i asesu risg a chynyddu iechyd ac effeithlonrwydd y rhwydwaith priffyrdd, gan fod yn fwy rhagweithiol nag adweithiol ar briffyrdd a llwybrau teithio llesol a oedd yn cael eu defnyddio'n rheolaidd.

Roedd yr Arweinydd yn edrych ymlaen at y drafodaeth a fyddai'n dilyn yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y newidiadau i Drefn Atgyweirio, Trefn Arolygu a Hierarchaeth Rhwydwaith Priffyrdd y Cyngor fel y disgrifiwyd yn yr Adroddiad ac a gynhwyswyd yn Atodiad 1 yn cael eu cytuno fel y sail ar gyfer gwaith y Cyngor o arolygu ac atgyweirio'n rheolaidd asedau priffyrdd y gellir eu cynnal a'u cadw'n gyhoeddus o 1 Ebrill 2024 ymlaen.

(2) BOD y safon ofynnol genedlaethol ar gyfer arolygu CH3 (prif ffyrdd dosbarthu a ffyrdd dosbarthu eilaidd, fel Ffordd y Mileniwm, y Barri) yn cael ei mabwysiadu, fel bod yr arolygiadau'n cael eu cynnal yn fwy rheolaidd sef bob 3 mis yn lle bob 6 mis.

(3) BOD safon arolygu CH4 (ffyrdd cyswllt, fel Romily Road, y Barry neu Terra Nova Way, Penarth) yn cael ei mabwysiadu a bod yr arolygiadau'n cael eu cynnal yn fwy rheolaidd sef bob 3 mis yn lle bob 6 mis.

(4) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio i'r Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio i'w ystyried.

(5) BOD Penderfyniadau 1, 2 a 3 yn cael eu cytuno, gyda'r newidiadau arfaethedig yn dod i rym o 1 Ebrill 2024 ymlaen, ar yr amod bod y Pwyllgor Craffu yn cytuno ar fanylion yr adroddiad ac nad yw'n gwneud sylwadau pellach.
Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Cytuno, yn amodol ar ystyriaeth y Pwyllgor Craffu, i ddiweddaru Llawlyfr Diogelwch Priffyrdd 2014 presennol y Cyngor yn unol â'r dull gweithredu ar sail risg a mabwysiadu ein Llawlyfr Cynnal a Chadw Priffyrdd 2024 gwell.

(2) Yn amodol ar farn y Pwyllgor Craffu, sicrhau cysondeb wrth arolygu'r ased mabwysiedig yn unol â Chod Ymarfer Grŵp Cyswllt Ffyrdd y DU sef "Well Managed Highway Structure" yn unol â'n hawdurdodau cyfagos. (https://content.tfl.gov.uk/well-managed-highway-infrastructure.pdf)

(3) Cynorthwyo i alinio safon y Cyngor ar gyfer arolygiadau ag Awdurdodau cyfagos a dosbarthu mathau o ffyrdd.

(4) Sicrhau cyfranogiad priodol gan yr Aelodau etholedig.

(5) Cytuno ar fanylion yr adroddiad heb ofyn am unrhyw gymorth pellach gan y Cabinet, pe bai'r Pwyllgor Craffu yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig.

**C237 GARDD BERLYSIAU'R BONT-FAEN – STATWS FIELDS IN TRUST (HCL) (CRAFFU – BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL) -**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a diben yr adroddiad oedd ceisio cymeradwyaeth i gyflwyno Gardd Ffisig y Bont-faen fel man gwyrdd a ddiogelir gan Meysydd Chwarae Cymru.

Dywedodd y Cynghorydd John, yn ôl Tripadvisor, mai'r Ardd Ffisig oedd yr atyniad ymwelwyr mwyaf blaenllaw yng nghanol tref y Bont-faen, ac roedd yn bwysig diogelu'r ardal fel man agored ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn werth ymweld â'r Ardd drwy gydol y flwyddyn.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD awdurdod yn cael ei roi i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles a'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, i gyflwyno’r Ardd Ffisig yn y Bont-faen dan y rhaglen Meysydd Chwarae Cymru briodol gyda chytundeb Ymddiriedolaeth Gardd Ffisig y Bont-faen.

(2) BOD y Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn cael ei awdurdodi i gwblhau a gweithredu'r ddogfennaeth gyfreithiol ofynnol ar gyfer y cyflwyno i Meysydd Chwarae Cymru.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1-2) Galluogi datblygu gweithred gyflwyno ffurfiol ar gyfer yr Ardd Ffisig gyda Meysydd Chwarae Cymru.